

Wynebu'r Sialens yn yr ysgol

Weithiau mae profiadau annisgwyl yn dod ar draws bywyd a dyna ddigwyddodd nôl ym mis Mawrth eleni pan fu rhaid cau Ysgol Penboyr, ger Llandysul, fel pob ysgol arall yn ddisymwth oherwydd y coronafirws. Aeth y wlad ar glo a chauwyd drws yr ysgol am dri mis. Pan agoron ni roedd pethau dipyn yn wahanol meddai Carol James, y Brifathrawes

Fel athrawon, roedd yn rhaid addasu'n fuan i addysgu'r disgyblion trwy ddulliau technoleg a chreu pecynnau dysgu digidol iddynt ar lwyfannau dysgu ar HWB. Darparwyd pecynnau papur i ddisgyblion oedd heb fynediad i HWB. Bu rhai o ddisgyblion hynaf yn anfon negeseuon at yr athrawon os oeddynt yn poeni am unrhyw beth neu angen help trwy eu cyfrif HWB. Buom yn ffonio'n teuluoedd, yn cynnwys y rhai bregus, yn rheolaidd i holi am les eu plentyn/plant a chynnig cymorth iddynt.

Yn ystod y cyfnod cau bu rhai o staff yr ysgol yn helpu yn HWB Ysgol Y Ddwylan, er mwyn darparu gofal i weithwyr allweddol yr ardal, yn cynnwys disgyblion o Ysgol Penboyr o 8y.b. hyd 6.y.h. Darparwyd brecwast, cinio a the i'r disgyblion. Gwerthfawrogwn ofal arbennig y staff hynny i blant y gweithwyr allweddol.

Fel rhan o'n gweithgareddau ar gyfer wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, 18^{fed}- 24^{ain} o Fai, creuodd Mrs Carys Davies, ein cydlynnydd Ysgolion Iach, fideo lles a rannwyd â ddisgyblion a rhieni Ysgol Penboyr, Llywodraethwyr a swyddogion sirol. Gosododd weithgareddau a heriau gwahanol i'n disgyblion ar facebook, app a thrydar yr ysgol yn ddyddiol. Ysgrifennodd y disgyblion weddïau a rapiau hunan ynysu arbennig yn ystod yr wythnos, e.e. Shane 11 oed a Jac 11 oed.



Ar 3^{ydd} o Fehefin, derbyniom newyddion da fod yr ysgolion yn mynd i ail-agor ar Fehefin 29^{ain}. Yn ystod yr wythnos cyn ail-agor cynhaliom HWB yn Ysgol Penboyr i ddisgyblion gweithwyr allweddol ac am y dair wythnos dilynol. Diolch i'r staff am baratoi'r ysgol ar gyfer yr ail-agor trwy osod arwyddion 2 fedr, gorsafoedd golchi dwylo, symud dodrefn, marcio llefydd, clirio adnoddau, archebu PPE a.y.b.

Roedd yn hyfrydwch pur i groesawu'r disgyblion a'r staff yn ôl i'r ysgol o Fehefin 29^{ain}. Cawsant gyfle i ddychwelyd fesul grwpiau blwyddyn a chael cyfle arbennig i ddal i fyny gyda'u ffrindiau a'r staff. I gloi y tymor, trefnom barti syrpreis amser cinio i flwyddyn 6, sglodion a selsig a hufen iâ! Daeth eu rhieni i iard yr ysgol, gan gadw at y pellter cymdeithasol, a chawsom

wasanaeth ffarwelio emosiynol gyda'n gilydd i orffen blwyddyn wahanol iawn yn hanes yr ysgol.

[Gellir dod o hyd i weddïau'r plant am Covid-19 yma](#)

